Gwasanaethau i gyd am 10.30 os na nodir yn wahanol

Gorffennaf 5 – Gweinidog + Cymundeb	
12 – Dim Gwasanaeth yn Tabernacl Pawb i ymuno yng Ngwasanaeth Arbennig Noddfa Ruhamah i dathlu 25 mlynedd Gweinidogaeth Parchg Euros Miles am 10.30 Neu i fynd i Sul y Cyfundeb yn Ysgol Pen-y-Garth,	
19 - Gweinidog Cwrdd Eglwys Blynyddol i drafod yr Adroddiad.	
26 - Gweinidog	
Awst 2 - Gweinidog + Cymundeb	
9 – Gweinidog	
16 – Mr Owen Pugh	
23 – Gweinidog	
30 – Gwasanaeth Aelodau	
Medi 6 - Gweinidog + Cymundeb	
13 – Gweinidog	
20 – Pererindod i Eglwys Llanilltyd Fawr	
27 - Gweinidog	

Tabernacl Porthcawl

HAF 2015

Gan ein bod yn nhymor y Pentecost, sef cyfnod o ddathlu'r Ysbryd Glân yn disgyn ar ddisgyblion Iesu Grist, dyma gwestiwn i chi, ydych chi'n gwybod pwy yw yr Ysbryd Glân a beth yw ei waith?

Wel, rhag ofn nad ydych, dyma fraslun i chi. Fe gaiff yr Ysbryd Glân ei adnabod gan yr Eglwys Gristnogol fel trydydd person y Drindod Sanctaidd. Y person cyntaf yw Duw, sy'n creu ac yn cynnal. Yr ail berson yw'r Mab Iesu Grist a fu farw trosom ni, ond fe goncrodd marwolaeth a hyd yn oed atgyfodi y trydydd dydd. Y trydydd person yw'r Ysbryd Glân, a'i waith ef yw goleuo'r meddwl a chynhesu'r galon, fel y gall pobl ddod i adnabod y Mab a'u nerthu i wasanaethu Iesu Grist yn y byd.

Rym ni'n cwrdd yn Tabernacl i addoli am fod Iesu Grist wedi dweud yn Actau 1, adnod 8

"Ond bydd yr Ysbryd Glân yn disgyn arnoch chi, ac yn rhoi nerth i chi ddweud amdana i wrth bawb — yn Jerwsalem a Jwdea, yn Samaria, a drwy'r byd i gyd."

Mae Tabernacl a phob capel arall yn perthyn i'r 'drwy'r byd i gyd.'
Drwy allu a nerth yr Ysbryd Glân y daeth y sôn am Iesu Grist i Gymru, a rŷm ni heddi yn gallu tystio i bresenoldeb a gwaith yr Ysbryd Glân yn ein gwlad o un genhedlaeth i'r llall.

Ond efallai bod ambell un ohonom ni yn meddwl 'Sdim lot o dystiolaeth bod yr Ysbryd Glân yn gweithio heddi,

yn enwedig o fewn y capeli Cymraeg.' Ond y newyddion da yw, pa le bynnag mae Iesu Grist yn cael ei gyhoeddi yn Waredwr ac Arglwydd, mae'r Ysbryd Glân yno yn gweithio ym mywyd yr eglwys a hefyd ym mywydau pobl.

Aeth A J Gordon ar daith gyda ffrind i Niagara Falls sy'n dweud wrtho "mae mor drist gweld gyment o bŵer yn cael ei wastraffu wrth i filiyne o alwyni o ddŵr ruthro dros y dibyn na." 'Na, fy ffrind' atebodd Gordon, "y pŵer mwya' yn y byd sy'n cal i wastraffu, a heb i ddefnyddio i'r eitha' yw'r Ysbryd Glan ym mywyde pobl Dduw." A rodd Gordon yn iawn, yr Ysbryd sy'n ein galluogi ni, a hefyd rhoi help a chysur yn ein hawr o angen.

Meddai Adrian Dieleman yn ei lyfr 'Receive the Holy Spirit.' "Several years ago a submarine was being tested and had to remain submerged for many hours. When it returned to the harbour, the captain was asked, "How did the terrible storm last night affect you?" The officer looked at him in surprise and exclaimed, "Storm? We didn't even know there was one!" The sub had been so far beneath the surface that it had reached the area known to sailors as "the cushion of the sea." Although the ocean may be whipped into huge waves by high winds, the waters below are never stirred. This, I believe, is a perfect picture of the peace that comes from Christ's Spirit. The waves of worry, of fear, of heartbreak, cannot touch those resting in Christ. Sheltered by His grace and encouraged by His Spirit, the believer is given the perfect tranquility that only Christ can provide."

Dyna i chi newyddion da, bod 'na rhywun sydd wedi addo bod gyda ni ta beth mae bywyd yn ei daflu atom ni, hyd yn oed os nad i ni'n ymwybodol o'i bresenoldeb mae o yno.

yr Urdd, Caerffili. Fe fwynheais y profiad o gael perfformio ar y llwyfan a dod yn ail yng nghystadleuaeth yr ensemble lleisiol gydag Indeg (fy chwaer) ac Anwen (sydd wedi bod yn ffrind da i mi ers yr ysgol gynradd), yn fawr iawn. Yn ystod fy amser hamdden, rwy'n mwynhau cerddoriaeth, ac yn ogystal â chanu rwy wrthi'n paratoi ar gyfer arholiadau diploma piano, gradd 8 ffidil a gradd 8 telyn. Yn y dyfodol, rwy'n gobeithio mynd i astudio leithoedd ac o bosib y Gyfraith hefyd yn y brifysgol. Byddaf yn mynychu nifer o ddiwrnodau agored ar draws Prydain dros yr wythnosau nesa cyn penderfynu at ba golegau yr hoffwn ddanfon cais cyn y Nadolig.

<u>Indeg</u>

Rwy'n 13 mlwydd oed ac yn ddisgybl ym mlwyddyn 8, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Rwyf wedi bod yn brysur yn cystadlu gyda'r ysgol ac Aelwyd Porthcawl yn Eisteddfod yr Urdd, Caerffili eleni ac wedi cael tipyn o lwyddiant. Bues i ar y llwyfan dair gwaith gyda'r Aelwyd a oedd yn brofiad cyffrous a bythgofiadwy! Ar hyn o bryd, rwy'n paratoi ar gyfer yr Ŵyl Gerdd Dant a gynhelir ym Mhorthcawl ym mis Tachwedd. Edrychaf ymlaen at y profiad o gystadlu unwaith eto. Rwy'n hoff o ganu, canu offerynnau a chymdeithasu yn fy amser rhydd. Rwy'n paratoi ar gyfer gradd 5 ar y delyn, gradd 6 ar y soddgrwth a gradd 7 ar y piano. Fy hoff bynciau yn yr ysgol yw Cerddoriaeth, Gwyddoniaeth a Ffrangeg ac rwy'n gobeithio parhau i astudio Cerddoriaeth, Daearyddiaeth a Ffrangeg ar gyfer TGAU ond mae blwyddyn arall i fynd cyn gorfod penderfynu!

Diolch i Dduw am ieuenctid yr eglwys ac am eu doniau. Dymunwn bob llwyddiant a bendith iddynt yn y dyfodol.

Braf fyddai cael hanes eraill o ieuenctid y teuluoedd sydd yn aelodau yr eglwys.

ddweud hyn mae'r flwyddyn o fy mlaen i'n edrych hyd yn oed yn fwy addawol gyda mi a'm ffrind gorau yn brysur yn codi arian ar gyfer ein halltaith hynod o gyffrous y flwyddyn nesaf i Forneo, lle byddwn yn gweithio â chymunedau llai ffodus na ni, â'r gobaith o wella ansawdd eu bywyd.

Lewis Murray

Ar y funud, rwyf newydd orffen fy arholiadau TGAU ac yn edrych ymlaen at haf estynedig. Mae'r cyfnod wedi bod yn un caled ond mi fydd y pwysau yn mynd pan ddaw fy nghanlyniadau. Mae gen i haf prysur o fy mlaen, gan fy mod yn aelod o Academi Only Boys Aloud ac mi fyddaf ar gwrs preswyl ym mis Gorffennaf, ac yna ymarferion Les Miserables gyda'r Urdd. Mi fyddant yn brofiadau anhygoel a bythgofiadwy.

Ar ôl yr haf, byddaf yn mynd ymlaen i astudio Bioleg, Cemeg a Chymraeg fel lefelau A, gyda'r gobaith i astudio Gwyddoniaeth Biomed mewn prifysgol, a hoffwn ymestyn fy ngyrfa yn y byd cerdd hefyd drwy wneud mwy o sioeau a pherfformiadau gyda Only Boys Aloud.

Georgia Murray

Rwyf wedi llwyddo i gael " Distinction" yng Ngradd 2 Telyn a "Merit" yn Ngradd 3 Ballet. Ar y funud rydw i yn cymryd diddordeb mewn sioe gerdd nesaf Llangynwyd sef Annie. Rydw i'n trio fy ngorau yn Y gwersi cerdd yn trio offerynnau newydd fel y gitar bas. Llwyddais i gael marciau uchel yng Ngwyddoniaeth a Chymraeg.

Teilo

Rwy'n 16 mlwydd oed ac yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, lle rwy'n astudio Cerddoriaeth, Cymraeg, Ffrangeg a Sbaeneg. Rwy newydd orffen sefyll fy arholiadau Uwch Gyfrannol (AS) ar ôl cystadlu yn Eisteddfod

Annwyl Ffrindiau.

Rwy'n ysgrifennu'r Cylchlythyr hwn yn gynnar!!! Gan mod i ar fin mynd ar fy ngwyliau ac ar ddechrau Mehefin yn gofyn, 'ble mae'r haf?' Gobeithio y daw'r tywydd twym heulog yn fuan. Diolch unwaith eto i chi am ein cadw ni, ac yn enwedig Lisa yn eich gweddïau.

CYDYMDEIMLO

Yn dilyn marwolaeth Grant Rees aelod ffyddlon yn yr eglwys hon, cydymdeimlwn a holl aelodau o'i deulu yn eu hiraeth a'u galar. Hefyd cydymdeimlwn yn ddwys iawn unwaith eto, gyda Amanda, Rob, Lewis a Georgia Murray sy'n galaru wedi marwolaeth mam Amanda.

YSBYTY

Wedi derbyn triniaeth mae John Stone, Mairwen Evans.

Rym ni fel eglwys yn dal i gofio yn ein gweddïau am Barbara Jones, Elizabeth (wyres Donald Jones) sydd wedi mynd trwy sawl cyfnod o driniaeth. A rym ni'n cofio am Lilwen yn ein gweddïau ac yn dymuno gwellhad buan iddi. Yn dilyn cwymp mae Lilwen yn dioddef lot fawr o boen yn ei chefn a cherdded yn anodd iawn iddi. Danfonwn ein dymuniadau gorau i bawb o'n haelodau sydd yn dioddef mewn unrhyw ffordd.

LLONGYFARCHIADAU

Mae ein llongyfarchiadau calonnog yn mynd i Mr Gareth Edwards ar gael ei anrhydeddu yn rhestr penblwydd y Frenhines a'i wneud yn Syr. Hefyd i Mrs Mair Davies West Road ar ddod yn hen fam-gu i Amelia Grace, croeso iddi i'r byd a phob bendith i'r teulu bach. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mr Elfed Morgan Carlton Place wedi iddo ddathlu penblwydd yn 90oed yn ddiweddar. Hefyd i Tom Price. Bydd Tom yn cael ei urddo i'r Orsedd, yn y Wisg Las, am ei gyfraniad i fywyd Cymraeg yr ardal, yn yr Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau ym mis Awst eleni.

CYMANFA GANU

Ar nos Sul Mehefin 7fed cafwyd cymanfa arbennig o lwyddiannus i ddathlu can mlynedd geni y diweddar Parchg W Rhys Nicholas o dan arweiniad Alwyn Humphreys ac Elisabeth Jones wrth yr organ. Hyfryd oedd medru cynnal cymanfa a phob emyn o'i waith ef. Diolch hefyd i ieuenctid Adran/Aelwyd Porthcawl am gymryd rhan a diolch i Tom Price am drefnu. Gwnaed casgliad ac debyniwyd £600 a fydd yn mynd i gronfa Apel Gŵyl Cerdd Dant Porthcawl a'r Fro.

AELWYD/ADRAN YR URDD

Llongyfarchiadau i Gwen am ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Celf Eisteddfod yr Urdd. yng Nghaerffili

Hefyd yr un llongyfarchiadau i Teilo, Indeg ac Anwen am ddod yn ail yng nghystadleuaeth yr Ensemble Lleisiol, gyda'r Aelwyd yn drydydd am y Côr Gwerin Tri Llais ac yn ail i'r Parti Cerdd Dant. Da iawn i bob un ohonoch a phob dymuniad da i'r dyfodol.

ASTUDIAETHAU BEIBLAIDD

Diolch i bawb a gefnogodd Astudiaethau Beiblaidd y Grawys. Diolch am y gymdeithas agos a'r trafod agored. Byddwn yn ail-ddechrau'r Astudiaethau yn yr Hydref.

ADRODDIAD

Eleni eto mae'r eglwys yn ddyledus iawn i Eluned a John Evans am baratoi yr Adroddiad yn barod i'w argraffu. Nid tasg fechan o bell ffordd! Diolch o galon iddynt am eu gwaith. Diolch hefyd i Derek, John Evans a John Stone am eu gofal arbennig o fuddiannau'r eglwys. Diolch i Rob Murray am ei waith ef hefyd yn helpu gyda gwaith Rhodd Cymorth ac i Ann Jones fel archwilwraig.

y ddeuawd cerdd dant gyda Teilo, yr ensemble lleisiol gyda Teilo ac Indeg ac mewn amrywiaeth o grwpiau gyda'r ysgol ac Aelwyd Porthcawl.

Cafodd gynnig lle yng nghynhyrchiad theatr Ieuenctid yr Urdd o Les Miserable a chafodd ei galw yn ôl ar gyfer ran Cosette ond yn anffodus bu'n rhaid iddi dynnu allan ar ôl derbyn y dyddiadau ymarfer ychwanegol oherwydd mae wedi penderfynu derbyn lle i astudio cerddoriaeth ym Mhrifysgol Chichester sydd hefyd wedi cynnig swydd iddi yn rhoi gwersi canu i blant yn y coleg.

Enillodd Canwr Ifanc y Flwyddyn Pen-y-bont. Cyflwynodd Maer y fwrdeistref dlws a gwobr iddi hi a thaleb i adran gerdd yr ysgol, cyflwynodd Siân Davies dlws er cof am ei thad y cyfansoddwr Brian Davies a chafodd wahoddiad gan y beirniad, y gantores opera Rebecca Evans i fynychu dosbarth meistr.

<u>Nia ac Elinor Williams</u>

Mae Nia newydd orffen ei hail flwyddyn yn y Brtifysgol. Mae Elinor wedi bod yn perfformio mewn sioe yn y West End. A bydd yn mynd i ffwrdd yn yr haf i berfformio mewn sioe arall yn Llundain. Bu hithau hefyd yn cystadlu gyda'r Aelwyd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Bu hefyd yn cymryd rhan yng Ngwyl Maesteg.

<u>Ffion</u>

Rwyf newydd orffen fy AS ym mlwyddyn 12 ac yn bwriadu parhau gyda'r un pynciau -Cymraeg, Addysg Grefyddol, Drama a Cherdd - y flwyddyn nesaf. Rwyf eisoes wedi cael blwyddyn anhygoel yn llwyddo i gael rhan yng nghast Les Miserable yn gynharach yn y flwyddyn. Mi fydd yn cael ei pherfformio yng Nghanolfan y Mileniwm ym mis Hydref er mwyn dathlu deg mlwyddiant y ganolfan. Wrth

HANES RHAI O IEUENCTID YR EGLWYS

Lleucu a Gwen Jones

Mae Lleucu a Gwen wedi bod yn brysur iawn yn cystadlu gyda'r Aelwyd a'r Adran yn Eisteddfod yr Urdd. Wnaethon nhw fwynhau yn fawr. Roedd Gwen wedi ennill medal aur yng Nhystadleuaeth Celf 2D bl 5 a 6. Mae Lleucu yn brysur yn paratoi am ei arholiadau telyn a piano. Mae Gwen hefyd yn brysur gyda'r piano, telyn a ffidil. Mae Lleucu yn edrych ymlaen at fynd i Glanllyn a Gwen i Langrannog gyda'u hysgolion.

Ieuan Dixon

Mae diddordeb brwd Ieuan yn yr Air Cadets yn parhau. Ym mis Medi dechreuodd ar gymhwyster Dug Caeredin gyda grŵp o'r cadlanciau ac mae bellach ar fin ei gwblhau. Mae wedi mwynhau'r cwrs a'r holl anturiaethau sydd wedi bod yn rhan ohono. Maent wedi mwynhau sawl alldaith ar y mynyddoedd lleol ac ym mis Tachwedd bu'n rhaid heicio ar draws y mynyddoedd a gwersylla yn hollol hunan gynhaliol yn Afan Argoed am benwythnos mewn glaw difrifol!

Er mwyn cwblhau'r cwrs mae Ieuan wedi bod yn gwirfoddoli mewn nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cynnwys hyfforddi rygbi, beirniadu eisteddfod, cymryd cofnodion cyfarfod, croesawu gwesteion i gyngerdd ac uchafbwynt y flwyddyn, actio rhan Superted yn nathliad Gŵyl Ddewi Menter Bro Ogwr yn Sainsbury's.

Anwen Dixon

Mae Anwen wedi bod yn brysur tu hwnt ac wedi profi cryn dipyn o lwyddiant dros yr wythnosau diwethaf. Ar ôl cystadlu yn eisteddfodau cylch a sir Urdd bydd yn mynd yn ei blaen i'r genedlaethol ar yr unawd merched dan 19,

Diolch hefyd i'r Swyddogion a'r diaconiaid, gan gofio mai grŵp bach ydynt, am eu gwaith cyson yn ymateb i holl alwadau'r swydd, nid yn unig yr holl gynnal a chadw ar yr adeiladau a llanw ffurflenni ceisiadau grant ar gyfer y capel, ond hefyd ochr ysbrydol y gwaith.

CWRDD EGLWYS

Cynhelir Cwrdd Eglwys ar yr 19eg o Orffennaf, er mwyn trafod yr Adroddiad, ac unrhyw fater arall.

PERERINDOD

Cynhelir ein Pererindod eleni ar y 14eg o Fedi. Byddwn yn mynd ar ymweliad â eglwys San Illtyd yn Llanilltud Fawr. Mwy o fanylion a gwybodaeth yn agosach at yr amser.

CYMORTH CRISTNOGOL

Diolch i bawb a drefnodd, helpodd ac a gyfrannodd tuag at y stondin ymolchi yn y bore coffi tuag at Cymorth Cristnogol. Codwyd £134 ar ein stondin yn y bore coffi a dros £9,336 yn yr amlenni wrth gasglu ar strydoedd y dre, sy'n rhyfeddol o ystyried yr hinsawdd economaidd rym ni ynddi ar hyn o bryd.

CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Fawrth 22ain Ebrill yng Nghapel Efail Isaf. Mynychwyd y cyfarfod gan Tom Price a John Evans.

Rhaglen Datblygu – pwysleisiwyd mai ychydig iawn o eglwysi, a llai fyth o Gyfundebau sydd wedi manteisio ar yr arian sydd ar gael o'r gronfa Datblygu (i fyny at £1000 i eglwys a £3000 i Gyfundeb). Ni ellir defnyddio'r arian i brynu offer ond gellir ei ddefnyddio i brynu adnoddau.

Gofynnwyd i eglwysi i ystyried prosiect i ddatblygu eu heglwys ac wedyn i wneud cais am arian.

Yn y Cyfarfod Agored Mr Emlyn Davies oedd yn egluro sut penderfynodd Eglwys Efail Isaf i ganiatáu Priodasau Un Rhyw yn eu capel.

Y Cyfarfod nesaf fydd Sul y Cyfundeb ar y 12fed o Orffennaf yn Ysgol Penygarth Penarth

EGLWYSI YNGHYD YM MHORTHCAWL

Y Banc Bwyd – yn anffodus mae mwy o alw am wasanaeth y Banc Bwyd sydd nawr wedi symud i'r Y Centre ac ar agor rhwng 10.00 – 12.00 bob dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener. Mae'r trefnwyr yn hynod ddiolchgar am gyfraniadau'r eglwysi.

Cyfarfod Cyffredinol Arbennig - Nos Fawrth 30ain Mehefin am 7.00 o'r gloch yn y "Y Centre" - i'r Parchg Paul Floe drosglwyddo'r Llywyddiaeth i Martin Rock. - Croeso cynnes i bawb. Gofynnir i chi ddod a chyfraniad at y bwyd.
Ar hyn o bryd nid oes enw am Is-Lywydd, felly os gwyddoch am rywun fyddai a diddordeb rhowch wybod.

Songs of Praise by the Sea - prynhawn dydd Sul 26ain Gorffennaf am 3.30 **yn y Band Stand** yn John Street. Bydd Band Arian Cwm Ogwr yn cymryd rhan.

St Mary's Trecco Bay – Mae'r Cyngor Eglwysi wedi trefnu fod gwasanaeth a gweithgareddau yn cael eu cynnal yn yr Eglwys yn Trecco dros cyfnod yr haf –
Gwasanaeth ar ddydd Sul am 12.30 gydag o leiaf un sesiwn arall o weithgareddau yn ystod yr wythnos. Os hoffech helpu, cysylltwch gydag un o'r eglwysi isod.

Wythnos yn dechrau
2il Awst – Yr Eglwysi
9fed Awst - Gilgal
16eg Awst- Trinity
23ain Awst – Yr Eglwysi
30ain Awst - Stella Maris

Wythnos Un Byd - *"One Week World"* - 18fed – 22ain Hydref – Mae Martin Rock yn awyddus i ddenu gweithgaredd, a chael cydweithrediad, pob grŵp yn y dref sydd yn gweithio gyda pobl ifanc. Y paratoadau yn cael eu gwneud dros yr wythnosau nesaf.

Eglwys Trinity – Olynydd y Parchg Paul Floe fydd y Parchg Teddy Kalngo sydd yn wreiddiol o Zambia

Dyddiad Cyfarfod nesaf – 30ain Mehefin yn y Y Centre.

SUL Y CYFUNDEB

Cynhelir Sul y Cyfundeb eleni ar yr 12eg o Orffennaf, yn Ysgol Penygarth Penarth ond ar yr un dyddiad bydd y Parchg Euros Miles yn dathlu 25ain mlynedd fel gweinidog yn Noddfa ac rydym wedi derbyn gwahoddiad gan yr eglwys i ymuno yn y gwasanaeth arbennig a gynhelir ar y dyddiad hwn am 10.30. Mae croeso i chi fynd i Benarth neu ymuno yn y gwasanaeth yn Noddfa Ruhamah gan na fydd oedfa yn y Tabernacl